Wythnos Cymorth Cristnogol
9-15 Mai 2010

Rhown Ddiwedd ar Dlodi: stori Wythnos Cymorth Cristnogol

(Gellir defnyddio'r stori yma yn lle dangos y fideo: Wythnos Cymorth Cristnogol*: Rhown Ddiwedd ar Dlodi*, ar gael ar y* DVD-rom Poverty: Let's End It*.)

Cyn Wythnos Cymorth Cristnogol eleni aeth grŵp o gefnogwyr Cymorth Cristnogol i Kenya i weld drostynt eu hunain gwaith trawsnewidiol partner Cymorth Cristnogol, 'Maji na Ufansi' (MNU) sy'n golygu 'Dŵr a Datblygiad'. Ers 1999 mae MNU wedi gweithio yn Kiambiu, un o slymiau neu 'cymunedau anffurfiol' Nairobi. Os gall MNU sicrhau mwy o gyllid mae'n bwriadu dechrau gweithio yn Matopeni cyn bo hir.

Mae Rosalind McLaughlin, o Holywood, Gogledd Iwerddon, yn adrodd ei stori …

'Rydym wedi teithio o gwmpas Nairobi a gweld pob math o ardaloedd gwahanol: tipyn o wrthgyferbyniad. Mae 60 y cant o'r boblogaeth - mwy na dwy filiwn o bobl - yn byw mewn cymunedau anffurfiol. Roedd yn dipyn o sioc!

Yn Matopeni …

'Y peth cyntaf i ni weld wedi cyrraedd Matopeni oedd canlyniadau'r toiledau sy'n hedfan. Does dim un toiled sy'n gweithio'n iawn yma, felly mae pobl yn defnyddio bag ac yna ei daflu dros y wal. A does yna ddim tap swyddogol na dŵr glân chwaith. Mae pobl wedi llwyddo dod o hyd i'r pibellau dŵr sydd o dan y ddaear - ond mae'r dŵr yn wirioneddol frwnt ac yn cario teiffoid.

'Gwraig o'r enw Catherine Kithuku aeth â ni o gwmpas. Roedd yn anghredadwy. Cawsom ein harwain ar hyd llwybr sy'n rhedeg yn ymyl y tai. 'Styllod wedi torri yw'r llwybr ac mae system garthffosiaeth y gymuned yn rhedeg yn syth o dano. Roedd llygod enfawr yno a dwedodd Catherine fod y carthion yn llifo i mewn i'w chartref pan fydd hi'n bwrw glaw ac yn codi i lefel y gwely gan wlychu'r fatras. Mae mosgitos yn magu yn y carthffosydd, sy'n golygu bod malaria'n cynyddu ac mae'r plant yn aml yn dioddef o niwmonia oherwydd y lleithder. Ond does gan y teulu ddim unman arall i fynd.

'Mae urddas y bobl yma a'u hymdeimlad o gymuned yn drawiadol iawn. Soniant amdanom ni, byth fi. Mae Catherine eisoes wedi ffurfio grŵp o'r enw *Arise and Shine* sy'n trefnu casglu sbwriel ac addysgu'r bobl am iechyd a materion eraill. Mae Catherine yn dweud ei bod hi'n breuddwydio am amgylchfyd sy'n addas i bobl fyw ynddo. Mae'n dweud ei bod hi'n credu mewn newid. Os daw MNU i weithio yn Matopeni rwy'n credu y bydd hi'n ei weld.

Yn Kiambiu …

'Mewn cyferbyniad, mae pobl Kiambiu bron â chael bywyd normal. Gyda chymorth MNU maent wedi adeiladu pum bloc o doiledau a chawodydd ac maent yn cyflogi pobl o'r gymuned leol i'w glanhau a'u cynnal. Codir tâl bach ar bobl am eu defnyddio, ac fe fuddsoddir yr arian yn ôl yn y gymuned, e.e. i dalu am adeiladu mwy o flociau toiledau neu ar gyfer gofal iechyd brys i deuluoedd. Mae ganddynt hefyd ddŵr yfed glân yn awr.

'Fe wnes i gyfarfod â Catherine arall yn Kiambiu. Catherine Nyaata. Hi sy'n bennaf gyfrifol am ysgogi'r prosiect hwn. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w hiechyd hi a'i phlant. Fe helpodd i adeiladu'r blociau hyn, trwy gymysgu'r sment.

Yn ôl adref …

‘Rwy wedi gweld pobl yn byw mewn tlodi ar y sgrin deledu ond doeddwn i ddim wedi deall beth roedd hyn yn ei olygu - yr anobaith, a dim modd i ddarparu’r pethau sylfaenol ar eich cyfer eich hunan a’ch teulu.

‘Ond rydw i wedi gweld hefyd, os ydym yn barod i wneud rhywbeth, i wneud ymdrech a rhoi pobl eraill gyntaf, fe fedrwn ni wella tipyn ar fywydau pobl eraill. A does dim angen llawer o arian, hyd yn oed. Gall symiau cymharol fach wneud gwahaniaeth enfawr i lawer iawn o bobl.’

Cydnabyddiaeth:
Mae nifer o’r dyfyniadau, gweddïau a’r straeon sydd yn y gwasanaeth yma yn codi o’r sgyrsiau rhwng ein cefnogwyr a’r bobl o Kenya y buont yn ymweld â hwy. Diolch arbennig i’r bobl ymroddedig yma am rannu eu geiriau a’u calonnau gyda Cymorth Cristnogol a’r cefnogwyr eraill eleni:

1. Catherine Kithuku, gweithredwraig gymunedol, Matopeni yn Nairobi, Kenya.
2. Everlyne Kithuku, chwaer Catherine, Matopeni, Nairobi, Kenya.
3. Jeremiah Muli, myfyriwr, Matopeni, Nairobi, Kenya
4. Catherine Nyaata, gweithredwraig gymunedol, Kiambiu yn Nairobi, Kenya.
5. Sue Burston, Trefnydd Wythnos Cymorth Cristnogol yn Wooler, Northumberland.
6. Alison Clarke, Cadeirydd Pwyllgor Wythnos Cymorth Cristnogol, Caerwrangon.
7. Rosalind McLaughlin, Cynrychiolydd Cymorth Cristnogol o Holywood, Gogledd Iwerddon.
8. Parchg Nan Wyn Powell-Davies, cefnogwraig Cymorth Cristnogol o’r Wyddgrug, Gogledd Cymru.
9. Parchg Delroy Powell, cefnogwr Cymorth Cristnogol o Tooting, De Llundain.
10. Anthony Venelle, Trefnydd Wythnos Cymorth Cristnogol yng Nghaeredin, Yr Alban.

Lluniwyd ac ysgrifennwyd y gweddill o’r gwasanaeth gan Jenny Ayres, Liz Baddaley, Laura Bardwell, Pippa Dunn a Kate Tuckett. Cyfieithwyd y gwasanaeth i’r Gymraeg gan Cynthia Davies. Diolch arbennig hefyd i CompassionArt am fod yn bartneriaid yn Wythnos Cymorth Cristnogol 2010.

© Cymorth Cristnogol Ionawr 2010
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525